# Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

## Canllawiau Addysgu
## Uned 6

# UNED 6
# GWEITHIO YN Y SECTOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

## Cyflwyniad:
Prif nod y canllawiau unedau hyn yw cefnogi'r broses o addysgu a dysgu a bod yn gydymaith i'r Fanyleb. Mae pob un o'r canllawiau unedau yn cynnig esboniad manwl o bwyntiau allweddol yn y Fanyleb gyda'r nod o esbonio meysydd cymhleth o gynnwys y pwnc.

## Rhaglen astudio:
Awgrymiadau yn unig ar gyfer datblygu gwybodaeth y dysgwyr yw'r gweithgareddau a nodir yma. Mae'n rhaid i bob canolfan benderfynu a yw'r gweithgareddau yn briodol i'w dysgwyr, a chydnabyddir y gall amodau lleol bennu'r dull a fabwysiedir. Er ei bod yn bosibl y bydd rhai o'r gweithgareddau a awgrymir yn cynnwys ymgysylltu â'r sector, noder bod y mwyafrif o'r gweithgareddau wedi'u cynllunio i ddigwydd yn yr ystafell ddosbarth. Mae dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth drwy'r profiad a gânt wrth gyflawni pob gweithgaredd. Mae adborth ffurfiannol yn hanfodol i'r dysgu er mwyn sicrhau bod y dysgwr yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r graddau gorau posibl. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys gweithgareddau enghreifftiol sy'n rhoi digon o gyfleoedd ar gyfer adborth ffurfiannol.

## Trosolwg o'r cynnwys:
Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn adeiladu ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol drwy addysgu yn yr ystafell ddosbarth a thrwy ddulliau ymgysylltu gorfodol â'r sector (isafswm o 100 awr, y mae'n rhaid iddynt gynnwys 60 awr o leoliad gwaith). Bydd angen i ddysgwyr gadw cofnod myfyriol o'u profiadau.

Noder bod cynnwys yr uned hon yn adeiladu ar wybodaeth a geir drwy unedau 1, 2 a 3 (Tystysgrif) ac unedau 4 a 5 (Diploma).

## Asesiadau:
Mae'r uned hon yn Asesiad Di-arholiad sy'n cael ei hasesu'n fewnol a'i chymedroli'n allanol.

Caiff yr uned hon ei chwblhau drwy aseiniad a osodir sy'n cynnwys un dasg sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r dysgwr ddefnyddio ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd dysgwyr yn cael amser penodol i lunio'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, gan gwblhau'r gwaith dan oruchwyliaeth yn y ganolfan.

Gall canolfannau ddechrau'r aseiniad unrhyw bryd, unwaith y bydd cynnwys yr uned wedi'i gyflwyno.

Caniateir i ymgeiswyr weld eu dyddiadur ymgysylltu â'r sector a nodiadau a wnaed wrth ymgysylltu â'r sector wrth gwblhau eu hymchwiliad. Bydd disgwyl i'r athro wirio'r nodiadau hyn cyn yr asesiad er mwyn sicrhau mai'r ymgeiswyr eu hunain sydd wedi llunio'r nodiadau.

© WJEC CBAC Cyf

## YMGYSYLLTU Â'R SECTOR

Er mwyn cwblhau'r cymhwyster hwn, mae gofyn i ddysgwyr ymgymryd ag isafswm **gorfodol** o 100 awr o ymgysylltu â'r sector, sy'n cynnwys 60 awr o leoliad gwaith/arsylwi/cysgodi. Anogir canolfannau i gynnig mwy na 60 awr o leoliad pan fo hynny'n ymarferol a rhaid iddynt geisio sicrhau, lle bo hynny'n bosibl, y bydd dysgwyr yn cael profiad o fod mewn dau leoliad o leiaf wrth ymgysylltu â'r sector.

Gellid gwneud y 60 awr o leoliad mewn blociau neu dros gyfnod o amser, yn dibynnu ar amserlenni canolfannau. Fodd bynnag, argymhellir bod dysgwyr yn ymgymryd â'r holl ddysgu dan arweiniad mewn perthynas â chynnwys Uned 6 cyn iddynt ddechrau ar eu lleoliad er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u lleoliad.

Gallai lleoliadau sy'n briodol ar gyfer lleoliadau gwaith/arsylwi/cysgodi gynnwys:

- gwasanaethau ysbyty a gwasanaethau cymunedol y GIG (gwasanaethau iechyd perthynol, gwasanaethau anableddau dysgu, timau ymwelwyr iechyd, gwasanaethau byw â chymorth, gwasanaethau gofal cartref, gwasanaethau iechyd cyhoeddus, gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion, cofnodion meddygol, ysgrifenyddion meddygol, porthorion ac ati)
- Gwasanaethau Cymdeithasol/Adrannau Llesiant Cynghorau Sir (canolfannau atgyfeirio, gwasanaethau i ofalwyr, timau asesu, unedau gofalwyr)
- Gwasanaethau Tai neu Wasanaethau Tai Cymdeithasol
- Canolfannau dydd – oedolion hŷn neu bobl ag anableddau dysgu
- Cyngor nyrsio a chartrefi gofal
- Hosbisau neu wasanaethau gofal lliniarol
- Canolfannau i deuluoedd
- Banciau bwyd
- Unedau anghenion addysgol arbennig – *<u>nid</u> ysgol brif ffrwd na meithrinfeydd*
- Elusennau (MIND, Sefydliad Prydeinig y Galon, Macmillan, elusennau lleol sy'n ymwneud ag iechyd/gofal) - *<u>nid</u> siopau elusennol*
- Gweithgareddau chwaraeon pan fo ffocws ar werthoedd craidd ac ati.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac efallai y bydd gwasanaethau yn eich ardal leol nad ydynt ar gael mewn mannau eraill.

Gallant gwblhau'r 40 awr sy'n weddill o ymgysylltu â'r sector mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol, megis:

- roedd darlithoedd gwadd yn ymwneud â chynnwys yr uned (ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol, nyrsys, therapydd galwedigaethol ac ati)
- ymweliadau gan gyflogwyr
- ymweliadau â lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol (lle y bo'n briodol)
- ymweliadau â phrifysgolion ar gyfer gweithdai/darlithoedd/cynadleddau pwnc-benodol.

Mae'n rhaid i ddysgwyr gwblhau'r cofnod ymgysylltu â'r sector a lleoliad gwaith sydd ar gael ar dudalen y cymhwyster ar wefan [www.dysguiechydagofal.cymru](http://www.dysguiechydagofal.cymru) er mwyn dangos sut mae oriau ymgysylltu â'r sector wedi'u cronni.

Dylai dysgwyr hefyd gadw dyddiadur neu gofnod myfyriol o'u gweithgareddau ymgysylltu â'r sector a lleoliadau gwaith a fydd yn eu helpu i ateb yr asesiad di-arholiad ar gyfer Uned 6.

© WJEC CBAC Cyf

Nod y lleoliad gwaith yw galluogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- cael profiad ymarferol o amodau gwaith mewn gwahanol leoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol
- dod o hyd i wybodaeth am amrywiaeth o yrfaoedd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol drwy gysgodi unigolion mewn gwahanol rolau
- dysgu, cymhwyso ac ymarfer rhai o'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen i weithio mewn lleoliad iechyd a/neu ofal cymdeithasol, megis sgiliau cyfathrebu ac ati
- datblygu sgiliau wrth asesu eu talentau eu hunain a meithrin hyder a chyfrifoldeb
- deall rôl arferion gwaith amlddisgyblaethol
- deall y ddeddfwriaeth briodol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

### Dyddiadur myfyriol

Bydd yn ofynnol i ddysgwyr gadw dyddiadur myfyriol o'u profiadau ymgysylltu â'r sector a all fod ar ffurf ysgrifenedig neu electronig Mater i bob dysgwyr unigol yw penderfynu sut y bydd yn cadw ei ddyddiadur myfyriol.

Dylai'r dyddiadur myfyriol ymwneud â'r wybodaeth a gafwyd wrth i gynnwys yr uned gael ei gyflwyno, yn ogystal â phrofiadau tra oeddent yn ymgysylltu â'r sector. Bydd y wybodaeth a gedwir yn y dyddiadur myfyriol yn helpu'r dysgwr i ateb yr asesiad di-arholiad ar gyfer Uned 6. Dylid cadw'r dyddiadur myfyriol i'w gymedroli'n allanol.

Dylid annog dysgwyr i gwblhau cofnod dyddiol mewn dyddiadur yn ystod eu profiad gwaith. Gall tiwtoriaid hefyd annog dysgwyr i gwblhau eu cofnodion dyddiadur drwy gynnal trafodaethau byr rheolaidd yn y dosbarth er mwyn galluogi dysgwyr i fyfyrio ar eu profiadau a'r arferion gofal a welwyd yn y lleoliad. Dylid hefyd annog dysgwyr i gwblhau cofnod mewn dyddiadur ar eu profiadau ehangach o ran ymgysylltu â'r sector, megis yn dilyn ymweliad gan siaradwr gwadd ac ati.

Dylai'r dyddiadur adlewyrchu'n uniongyrchol sut y gellir cymhwyso cynnwys yr uned at leoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol go iawn:

- rolau swyddi, cymwysterau a sgiliau sydd eu hangen ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol
- rôl cyfathrebu effeithiol, cydgynhyrchu, cydweithredu, gwaith tîm a phroffesiynoldeb yn y sector gofal
- sut y caiff codau ymddygiad/ymarfer eu dilyn a'u cymhwyso mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol
- diogelu wrth ymarfer
- sut y defnyddir dulliau gweithredu mewn lleoliadau er mwyn diwallu anghenion a bodloni gofynion unigolion
- sut mae deddfwriaeth Cymru yn effeithio ar ymarfer mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol
- rôl myfyrio mewn lleoliadau gofal.

Dylai dysgwyr hefyd ddefnyddio gwybodaeth a phrofiadau a gafwyd o unedau 1-5 a myfyrio ar sut y gellir eu cymhwyso mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol.

© WJEC CBAC Cyf

Rhaid annog y dysgwyr i wneud y canlynol:

- ysgrifennu adroddiad ar y gweithgareddau a welwyd ac a gyflawnwyd tra roeddent ar brofiad gwaith yn y lleoliad a myfyrio ar hyn y gwnaethant ei ddysgu o'r profiad. Er enghraifft, efallai y bydd dysgwr wedi gweld enghraifft ragorol o sesiwn therapi hel atgofion mewn cartref gofal a chymryd rhan yn y sesiwn honno; fodd bynnag, dylai'r dysgwr feddwl yn ddyfnach a myfyrio ar yr effaith y gallai hyn fod wedi'i chael ar un o ddefnyddwyr y gwasanaeth, neu'r ffordd y cafodd y gweithgaredd ei gyfleu i ddefnyddwyr y gwasanaeth
- myfyrio ar y ffordd y cafodd gwerthoedd gofal eu dangos yn y lleoliad
- myfyrio ar sut y gallent deimlo yn yr amgylchedd
- gweld sut mae pob cyflogai yn y lleoliad yn cyfrannu at sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth yn cyflawni eu canlyniadau personol, gan nodi nodweddion allweddol pob rôl iechyd a/neu ofal cymdeithasol yn y lleoliad
- holi aelodau o'r tîm am eu rolau yn y lleoliad a chofnodi hyn hefyd
- rhyngweithio ag aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaethol yn y lleoliad, a all gynnwys, ymhlith eraill, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, fferyllwyr, deietegwyr sy'n ymweld â'r lleoliad Wrth fyfyrio ar eu profiad gwaith, dylai'r dysgwyr fod yn nodi yn eu dyddiaduron pwy gyfrannodd at ofal defnyddiwr y gwasanaeth a sut y gwnaethant hynny
- ystyried sut mae aelodau'r tîm amlddisgyblaethol yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau y caiff canlyniadau personol defnyddwyr y gwasanaeth eu cyflawni

### Cofnod ymgysylltu â'r sector

Disgwylir i ddysgwyr hefyd gadw cofnod o'u horiau ymgysylltu â'r sector. Dylai dysgwyr grynhoi'r gweithgaredd, dyddiad y gweithgaredd a hyd y gweithgaredd mewn oriau. Fel arweiniad, mae enghraifft wedi'i chwblhau yn y templed*. Rhaid cyflwyno'r cofnod o ymgysylltu â'r sector i'w gymedroli'n allanol.

Nid yw'r ymgysylltiad â'r sector wedi'i gyfyngu i'r uned hon: os caiff siaradwyr gwadd eu gwahodd i mewn i'r ystafell ddosbarth neu os caiff ymweliadau â darparwyr gwasanaethau eu trefnu wrth i unedau eraill gael eu cyflwyno, yna gellir ystyried bod y rhain yn ymgysylltu â'r sector. Yn yr un modd, os caiff ymweliadau eu trefnu nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig ag unedau sy'n cael eu hastudio, yna gellir cofnodi'r oriau hyn fel oriau ymgysylltu â'r sector hefyd.

****Mae'r templed hwn ar gael yn yr Atodiad i'r ddogfen hon***

© WJEC CBAC Cyf

Enghraifft o raglen astudio ar gyfer:

## Uned 6 (Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol)

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Gwaith Cartref |
|---|---|---|---|
| **6.1**<br>Rolau swyddi, cymwysterau a sgiliau sydd eu hangen ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol | Cyflwyniad i gynnwys yr uned a'r asesiad – crynodeb o'r cynnwys 1.1. (Tystysgrif).<br><br>Dysgwyr i feddwl am amrywiaeth o rolau neu yrfaoedd yn y sector iechyd a/neu ofal cymdeithasol y gallant anelu at ymgymryd â nhw – trafodwch y rolau hyn fel dosbarth.<br><br>Mewn grwpiau, y dysgwyr i ymchwilio i'r rolau y mae'r gyrfaoedd hyn yn eu chwarae ym maes gofal (un rôl mewn gofal rheng flaen a'r llall mewn swyddogaethau cymorth) a rhoi adborth i'r dosbarth; y rolau i'w cynnwys:<br>• ***Rolau mewn gofal rheng flaen*** – timau ambiwlans, gweithwyr cymorth gofal iechyd, gweithwyr gofal, gweithwyr cymdeithasol, meddygaeth, nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, gweithwyr gweithgareddau, cynorthwywyr personol, gweithwyr adsefydlu<br>• ***Rolau mewn swyddogaethau cymorth*** – ystadau a chyfleusterau, gwybodeg iechyd, rheoli, gweinyddwr, cyllid, adnoddau dynol a marchnata, cogyddion neu gynorthwywyr cegin, swyddogion cadw tŷ/staff domestig, gyrwyr neu reolwyr trafnidiaeth, gweithwyr gwybodaeth cyngor a chymorth. | Gyrfaoedd ym maes Iechyd yn y GIG – cwis dod o hyn i'ch gyrfa ym maes iechyd:<br>https://www.healthcareers.nhs.uk/findyourcareer<br><br>Gyrfaoedd yn y GIG:<br>https://www.healthcareers.nhs.uk/<br><br>Proffesiynau a theitlau gwarchodedig Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC):<br>https://www.hcpc-uk.org/about-us/who-we-regulate/the-professions/ | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dysgwyr i ymchwilio a llunio taflen ffeithiau i ddangos eu dealltwriaeth:<br>• bod sgiliau swydd-benodol yn cynnwys y galluoedd hynny sy'n golygu y gall unigolyn gyflawni swydd benodol mewn ffordd gymwys<br>• o'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn cyflawni o leiaf ddwy swydd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol (un rôl mewn gofal rheng flaen a'r llall mewn swyddogaethau cymorth). | | |
| | Yn dilyn o'r sesiynau blaenorol, dysgwyr i ymchwilio i un rôl broffesiynol ym maes iechyd neu faes gofal cymdeithasol neu yrfa ym maes iechyd neu faes gofal cymdeithasol y gallant anelu at ymgymryd â hi ar ôl cwblhau'r Diploma – gellid cysylltu hyn â ***Bagloriaeth Cymru Uwch*** a ***cheisiadau i UCAS***.<br><br>Dysgwyr i lunio cyflwyniad Powerpoint neu Prezzi 20 munud, gyda nodiadau atodedig i'r siaradwr a thaflen ffurfiol sy'n gwneud y canlynol:<br>• disgrifio rôl a chyfrifoldebau'r gweithiwr proffesiynol<br>• esbonio'r llwybr addysgol a'r dilyniant gyrfa sydd eu hangen ar gyfer y rôl<br>• esbonio rôl y cyrff proffesiynol perthnasol<br>• crynhoi'r codau ymarfer proffesiynol mewn perthynas â'r proffesiwn<br>• esbonio sut mae'r rôl yn cyd-fynd â thair rôl iechyd a gofal cymdeithasol arall mewn tîm amlddisgyblaethol, gan roi enghreifftiau.<br>Dysgwyr i gyflwyno eu canfyddiadau i weddill y dosbarth. | UCAS: https://www.ucas.com/<br><br>Cyngor gyrfaoedd UCAS: https://www.ucas.com/careers-advice<br><br>Cwis gyrfaoedd UCAS: https://www.ucas.com/careers/buzz-quiz<br><br>Gyrfaoedd yn y GIG: https://www.healthcareers.nhs.uk/<br><br>Proffesiynau a theitlau gwarchodedig Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC): https://www.hcpc-uk.org/about-us/who-we-regulate/the-professions/ | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dysgwyr i baratoi ar gyfer trafodaeth yn y dosbarth ar bwysigrwydd rheoleiddio i rai rolau proffesiynol ac, er mwyn iddo allu ymarfer, fod yn rhaid i'r gweithiwr:<br>• gofrestru â chorff rheoleiddio<br>• meddu ar gymwysterau perthnasol a allai gynnwys gradd neu ddiploma israddedig.<br>Dysgwyr i adolygu a llunio posteri hawdd eu deall ar y cyrff rheoleiddio canlynol a phwy y maent yn eu cynrychioli, i gynnwys:<br>• Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)<br>• Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC). | Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC):<br>https://www.hcpc-uk.org/<br><br>Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC):<br>https://www.nmc.org.uk/ | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos |

© WJEC CBAC Cyf

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Gwaith Cartref |
|---|---|---|---|
| **6.2**<br>Rôl cyfathrebu effeithiol, cydgynhyrchu, cydweithredu, gwaith tîm a phroffesiynoldeb yn y sector gofal | Sesiwn dan arweiniad y tiwtor ar rôl cyfathrebu effeithiol, cydgynhyrchu, cydweithredu, gwaith tîm a phroffesiynoldeb yn y sector gofal, gydag enghreifftiau o'r ffordd y mae'r rhain wedi cael eu dangos, neu y maent yn debygol o gael eu dangos, wrth iddynt ymgysylltu â'r sector, i gynnwys:<br>• cyfathrebu effeithiol a'i rôl o ran darparu gofal a chymorth o ansawdd er mwyn gwella canlyniadau llesiant ar gyfer unigolion<br>• cydgynhyrchu yw un o brif egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• cydweithredu yw sail llwyddiant mewn unrhyw dîm<br>• mae gwaith tîm yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn dod â phobl sydd â sgiliau, galluoedd a doniau gwahanol ynghyd er mwyn darparu'r gofal a'r driniaeth orau posibl i unigolion<br>• mae proffesiynoldeb yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn ddisgwyliedig gan unigolion sy'n cael gofal a chymorth.<br><br>Dysgwyr i lunio cyfres o bosteri adolygu ar yr uchod, gan roi enghreifftiau wrth ymarfer. | Gofal Cymdeithasol Cymru – cyfathrebu: https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/cyfathrebun-effeithiol-â-phobl-â-dementia<br><br>Deddfwriaeth Gofal Cymdeithasol Cymru – Egwyddorion y Ddeddf (Cydgynhyrchu): https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/cydgynhyrchu<br><br>Y Coleg Nyrsio Brenhinol – Gwaith Tîm: https://rcni.com/hosted-content/rcn/first-steps/teamwork<br><br>Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal – Proffesiynoldeb: https://www.hcpc-uk.org/globalassets/resources/reports/professionalism-in-healthcare-professionals.pdf | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Yn dilyn o'r sesiynau blaenorol, dysgwyr i gymhwyso eu gwybodaeth o gyfathrebu effeithiol, cydgynhyrchu, cydweithredu, gwaith tîm a phroffesiynoldeb er mwyn cefnogi'r canlynol:<br>• safon uchel o ofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>• gwasanaeth di-dor rhwng pob math o ofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>• amgylcheddau gwaith gwell i staff ac unigolion sy'n manteisio ar ofal a chymorth, yn cynnwys y model cydgynhyrchu<br>• profiad gwell i ofalwyr a theuluoedd unrhyw unigolion sy'n manteisio ar ofal a chymorth person-ganolog<br>• diogelwch personol unigolion ac atal camgymeriadau rhag digwydd<br>• gwaith tîm llwyddiannus ac effeithlon.<br><br>Dysgwyr i weithio mewn grwpiau bach i lunio arddangosfa yn yr ystafell ddosbarth sy'n dangos y ffordd y maent wedi cymhwyso gwybodaeth. | | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos |

© WJEC CBAC Cyf

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Gwaith Cartref |
|---|---|---|---|
| **6.3**<br>Sut y caiff codau ymddygiad/ymarfer eu dilyn a'u cymhwyso mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol | ***Siaradwr gwadd:* Rheolwr Lleol y Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP)** * i drafod sut y caiff rheoliadau gweithlu a chodau ymddygiad ac ymarfer eu dilyn a'u cymhwyso ym maes gofal cymdeithasol, i gynnwys:<br>• Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol<br>• Y Gweithiwr Gofal Plant Preswyl: canllawiau ymarfer<br>• Y Cod Ymarfer Gofal Cymdeithasol i Gyflogwyr<br>• Canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.<br><br>Dysgwyr i drafod â'r siarad gwadd sut y caiff y codau ymddygiad/ymarfer uchod eu dilyn a'u cymhwyso drwy'r canlynol:<br>• dulliau cyfathrebu â phob aelod o staff<br>• hyfforddiant er mwyn sicrhau bod y cod yn cael ei ddeall<br>• ymarfer a dulliau hyrwyddo gan y rheolwyr<br>• goruchwylio a rheoli perfformiad<br>• gwasanaethau cwynion a chanmoliaeth<br>• cofrestru a rheoleiddio'r gweithlu: ymchwiliadau ac achosion addasrwydd i ymarfer<br>• gwasanaethau rheoleiddio ac arolygu wrth arolygu codau ymarfer/ymddygiad.<br><br>Dysgwyr i lunio adroddiad sy'n addas i weithwyr gofal cymdeithasol newydd mewn lleoliad gofal ar reoleiddio'r gweithlu, codau ymddygiad ac ymarfer a sut y cânt eu dilyn a'u cymhwyso yn y lleoliad. | Gofal Cymdeithasol Cymru – Y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol:<br>untitled (socialcare.wales)<br><br>Gofal Cymdeithasol Cymru – Y Gweithiwr Gofal Plant Preswyl – canllawiau ymarfer:<br>The-residential-child-care-worker-April-2017.pdf (socialcare.wales)<br><br>Gofal Cymdeithasol Cymru – Y Cod Ymarfer Gofal Cymdeithasol i Gyflogwyr:<br>https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Cod-cyflwgwyr-2018.pdf<br><br>Canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru: Practice-guidance-social-workers.pdf (socialcare.wales) | Y dysgwr i feddwl am gwestiynau a gwneud nodyn ohonynt yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd<br><br>Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | * Caiff Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP) ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i rheoli gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae pob Awdurdod Lleol yn gweinyddu'r cyllid a ddyrennir i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant a datblygu i bobl a gyflogir ym maes gofal cymdeithasol. | | |
| | ***Siaradwr gwadd:* Uwch-reolwr yn y GIG** i drafod sut y caiff rheoliadau gweithlu a chodau ymddygiad ac ymarfer gofal cymdeithasol eu dilyn a'u cymhwyso ym maes gofal cymdeithasol, i gynnwys:<br>• Safonau'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal<br>• Cod Ymddygiad GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru, (heb ei reoleiddio ar hyn o bryd)<br>• Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr GIG Cymru (heb ei reoleiddio ar hyn o bryd)<br><br>Dysgwyr i drafod â'r siarad gwadd sut y caiff y codau ymddygiad/ymarfer uchod eu dilyn a'u cymhwyso drwy'r canlynol:<br>• dulliau cyfathrebu â phob aelod o staff<br>• hyfforddiant er mwyn sicrhau bod y cod yn cael ei ddeall<br>• ymarfer a dulliau hyrwyddo gan y rheolwyr<br>• goruchwylio a rheoli perfformiad<br>• gwasanaethau cwynion a chanmoliaeth<br>• cofrestru a rheoleiddio'r gweithlu: ymchwiliadau ac achosion addasrwydd i ymarfer<br>• gwasanaethau rheoleiddio ac arolygu wrth arolygu codau ymarfer/ymddygiad. | HCPC Safonau Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal: Standards of conduct, performance and ethics \| (hcpc-uk.org)<br><br>Cod Ymddygiad y GIG yng Nghymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru: Home - NHS Wales<br><br>Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr GIG Cymru: Home - NHS Wales | Y dysgwr i feddwl am gwestiynau a gwneud nodyn ohonynt yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd<br><br>Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dysgwyr i lunio adroddiad sy'n addas i weithwyr cymorth gofal iechyd newydd mewn ysbyty lleol ar reoleiddio'r gweithlu, codau ymddygiad ac ymarfer a sut y cânt eu dilyn a'u cymhwyso yn y lleoliad.<br><br>Sesiwn dan arweiniad y tiwtor ar rôl a diben cyrff proffesiynol a manteision aelodaeth i weithwyr gofal proffesiynol, i gynnwys:<br>• cyrff proffesiynol e.e. Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA), y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN), Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW)<br>• hybu safonau ymarfer proffesiynol a moeseg<br>• darparu gwybodaeth a chyngor<br>• amddiffyn a chefnogi gweithwyr<br>• cynnig cyfleoedd i aelodau rwydweithio<br>• cyhoeddi dyddiaduron proffesiynol<br>• darparu cyfleoedd datblygu gyrfa.<br><br>Dysgwyr i lunio cyfres o bosteri adolygu ar rôl a diben cyrff proffesiynol a manteision aelodaeth i weithwyr gofal proffesiynol sy'n addas i aelodau newydd o staff mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol. | BMA:<br>BMA - Home \| British Medical Association<br><br>RCN:<br>RCN - Home \| Royal College of Nursing<br><br>BASW:<br>www.basw.co.uk \| The professional association for social work and social workers | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos |
| | Dysgwyr i ymchwilio i ddiben undebau llafur a manteision aelodaeth i weithwyr gofal cymdeithasol, i gynnwys:<br>• pam eu bod yn bodoli e.e. er mwyn darparu gwell amodau gwaith i'w haelodau<br>• eu nod e.e. amddiffyn a gwella cyflog ac amodau cyflogaeth cyflogeion.<br><br>Dysgwyr i lunio cyfres o bosteri adolygu ar rôl a diben undebau llafur a manteision aelodaeth i weithwyr gofal sy'n addas i aelodau newydd o staff mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol. | Beth yw undeb llafur a beth yw manteision ymuno ag un?<br>https://www.thompsonstradeunion.law/news/commentary/personal-injury/what-is-a-trade-union-and-what-are-the-benefits-of-joining-one | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos |

© WJEC CBAC Cyf

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Gwaith Cartref |
|---|---|---|---|
| **6.4**<br>Rôl cyflogwyr wrth hybu ac amddiffyn hawliau unigolion | ***Siaradwr gwadd:* Rheolwr Adnoddau Dynol/Cynorthwyydd o'r Bwrdd Iechyd Lleol neu o feddygfa leol neu ddarparwr gofal annibynnol lleol** ar rôl cyflogwyr wrth hybu ac amddiffyn hawliau'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau a'r cyflogeion sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a deall y rôl honno.<br><br>Sesiwn dan arweiniad y tiwtor ar y ffordd y caiff gofynion y ddeddfwriaeth eu bodloni drwy bolisïau, gweithdrefnau a strategaethau, i gynnwys:<br>• hawliau cyflogaeth sylfaenol: isafswm cyflog/cyflog byw, absenoldeb a thâl salwch, absenoldeb a thâl gwyliau, hawliau gweithwyr rhan amser<br>• materion sy'n ymwneud â gwahaniaethu: deall sut i nodi a herio achosion o wahaniaethu ac aflonyddu (Deddf Cydraddoldeb 2010)<br>• iechyd a diogelwch: egwyddorion sylfaenol (Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 2005)<br>• polisïau, gweithdrefnau, mentrau a strategaethau sy'n effeithio ar iechyd a lles, gan gynnwys polisïau cyfrinachedd a'r cyfryngau cymdeithasol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)).<br>Gall rhai o'r uchod fod yn waith adolygu o uned 1 (1.3) a gellir gwneud cysylltiadau â'r uned honno. | Hawliau cyflogaeth:<br>https://businesswales.gov.wales/cy/holl-canllawiau/cyflogi-pobl/contractau-cyflogaeth-ac-oriau-gwaith<br><br>Deddf Cydraddoldeb 2010:<br>https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/85039/easy-read.pdf<br><br>Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 2015:<br>https://www.hse.gov.uk/pubns/laweasyread.pdf<br><br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:<br>Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 – The Future Generations Commissioner for Wales<br><br>GDPR:<br>For organisations \| ICO | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Y dysgwr i feddwl am gwestiynau a gwneud nodyn ohonynt yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd<br><br>Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos |

© WJEC CBAC Cyf

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Gwaith Cartref |
|---|---|---|---|
| **6.5**<br>Diogelu wrth ymarfer | Dysgwyr i adolygu'r wybodaeth am Ddiogelu a gafwyd o 1.5 a 5.3 ar sut y gellir cyflawni prosesau diogelu mewn ymarfer mewn gwahanol leoliadau, i gynnwys:<br>• sicrhau bod diogelu wrth wraidd pob ymarfer<br>• pwysigrwydd camau recriwtio sy'n seiliedig ar werth a rhoi hyfforddiant sefydlu cadarn i staff<br>• adolygu a diweddaru prosesau a gweithdrefnau yn rheolaidd<br>• gwneud defnydd llawn o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd mewn lleoliadau<br>• y ffordd y defnyddir adborth gan unigolion mewn amrywiaeth o leoliadau yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru<br>• y ffordd y gall unigolion sy'n manteisio ar ddarpariaeth y mae canlyniadau'n ganolog iddi fyw heb unrhyw niwed, camdriniaeth ac esgeulustod sy'n elfen bwysig o ofal a chymorth o ansawdd uchel<br>• sicrhau systemau cwyno effeithiol<br>• drwy'r ddyletswydd i adrodd (chwythu'r chwiban).<br><br>Dysgwyr i lunio cyfres o bosteri adolygu ar sut y gellir cyflawni ymarfer diogelu mewn gwahanol leoliadau, sy'n addas i weithwyr newydd mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol. | Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS):<br>Disclosure and Barring Service - GOV.UK (www.gov.uk)<br><br>GIG Cymru – Cwynion yn y GIG:<br>Home - NHS Wales<br><br>AgeCymru – How to make a complaint about Social Care in Wales:<br>Microsoft Word - FS59w - February 2022 (ageuk.org.uk) | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos |
| | ***Siaradwr gwadd:* Gweithiwr Cymdeithasol** i drafod y gallai torri gweithdrefnau a pholisïau diogelu arwain at y canlynol:<br>• camdriniaeth ac esgeulustod i'r unigolion sy'n manteisio ar y gofal a'r cymorth | Gofal Cymdeithasol Cymru – Taflen esgeulustod:<br>https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Taflen-esgeulustod-Gweithgaredd-5-pecyn-Diogelu-fersiwn-3.pdf | |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • erlyn yr unigolyn sy'n torri'r gweithdrefnau a/neu'r sefydliad/lleoliad gofal.<br><br>Dysgwyr i lunio adnodd sy'n addas i gyflogeion newydd mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol ar yr hyn a allai ddigwydd i unigolion sy'n cael gofal a chymorth yn y lleoliad pe na bai gweithdrefnau a pholisïau diogelu yn cael eu dilyn. | Gofal Cymdeithasol Cymru – enghreifftiau o wrandawiadau/erlyn: https://socialcare.wales/search?search=prosecution<br><br>Arolygiaeth Gofal Cymru: https://arolygiaethgofal.cymru/<br><br>Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: https://agic.org.uk/ | Y dysgwr i feddwl am gwestiynau a gwneud nodyn ohonynt yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd.<br><br>Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos |

© WJEC CBAC Cyf

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Gwaith Cartref |
|---|---|---|---|
| **6.6**<br>Sut y defnyddir dulliau gweithredu mewn lleoliadau er mwyn diwallu anghenion a bodloni gofynion unigolion | ***Siaradwr gwadd:* Nyrs Arbenigol Dementia** i drafod sut y gellir defnyddio ***dulliau seiliedig ar weithgareddau*** (stori bywyd a gwaith hel atgofion gydag unigolion sy'n byw gyda cholli cof neu ddementia) mewn lleoliadau gofal er mwyn diwallu anghenion a bodloni gofynion unigolion.<br><br>Dysgwyr i weithio mewn parau neu grwpiau bach er mwyn datblygu adnoddau seiliedig ar weithgareddau gan gynnwys adnoddau stori bywyd a hel atgofion y gellid eu defnyddio gydag unigolion sy'n byw gyda cholli cof neu ddementia – lle y bo'n briodol, gallai hyn hefyd gynnwys ymweliad â chartref gofal preswyl i bobl â dementia i arsylwi ar weithgareddau. | Beth yw dementia?: Dementia information - Alzheimer's Research UK (alzheimersresearchuk.org)<br><br>Dementia Bookcase Analogy (fideo): Alzheimer's Society – Bookcase Analogy - YouTube<br><br>The Dementia Village (fideo): CNN's World's Untold Stories: Dementia Village - YouTube<br><br>Hel atgofion:<br>Home - Betsi Cadwaladr University Health Board (nhs.wales)<br><br>https://sbuhb.nhs.wales/news/swansea-bay-health-news/the-derwen-arms-gets-its-own-brew/<br><br>New hair salon is a real highlight for dementia patients - Swansea Bay University Health Board (nhs.wales)<br><br>Gift of books helps group flick through memories - Swansea Bay University Health Board (nhs.wales) | Y dysgwr i feddwl am gwestiynau a gwneud nodyn ohonynt yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd<br><br>Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos |
| | ***Siaradwr gwadd:* Ymarferwr Iechyd Meddwl** i drafod sut y gellir defnyddio dulliau gweithredu gwahanol mewn lleoliadau gofal er mwyn diwallu anghenion a bodloni gofynion unigolion, i gynnwys: | Mind – What is CBT? (fideo): What is CBT? \| Making Sense of Cognitive Behavioural Therapy - YouTube | Y dysgwr i feddwl am gwestiynau a gwneud nodyn ohonynt yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • ***therapi ymddygiad gwybyddol:*** therapi siarad a ddefnyddir i drin unigolion â gorbryder, iselder a galar<br>• ***therapi ymddygiad:*** mae'n edrych ar ymddygiadau penodol a ddysgir a'r ffordd y mae'r amgylchedd yn dylanwadu ar yr ymddygiadau hynny; gall helpu i drin cyflyrau fel anhwylderau bwyta, hunan-niweidio a chamddefnyddio sylweddau<br>• ***cymorth ymddygiad cadarnhaol:*** gellir ei ddefnyddio pan fydd unigolion yn dangos ymddygiadau heriol.<br><br>Dysgwyr i lunio eu hadnoddau adolygu eu hunain ar y dulliau gweithredu uchod. | Greater Manchester Mental Health – Jack's Story (video): Cognitive Behavioural Therapy (CBT) - Jack's Story - YouTube<br><br>Therapi Ymddygiadol: Aversion Therapy (simplypsychology.org)<br><br>Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol: PBS - your questions - Challenging Behaviour Foundation | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos |

© WJEC CBAC Cyf

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Gwaith Cartref |
|---|---|---|---|
| **6.7**<br>Sut mae deddfwriaeth Cymru yn effeithio ar ymarfer mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol | Sesiwn dan arweiniad y tiwtor ar sut mae deddfwriaeth, rheoliadau a fframweithiau yng Nghymru yn effeithio ar ymarfer mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn cyflawni'r canlyniadau dymunol, i gynnwys:<br>• Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016<br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br>• Deddf Galluedd Meddyliol 2005<br><br>Dysgwyr i lunio posteri ar gyfer pob un o'r deddfwriaethau uchod sy'n esbonio sut maent yn effeithio ar ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn cyflawni'r canlyniadau y maen nhw'n dymuno eu cael. | Deddfwriaeth Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – trosolwg o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016:<br>Rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol... \| Gofal Cymdeithasol Cymru<br><br>Deddfwriaeth Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – trosolwg o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:<br>Trosolwg o'r Ddeddf Gwasanaethau... \| Gofal Cymdeithasol Cymru<br><br>Comisiynydd y Gymraeg – trosolwg o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011:<br>404 (comisiynyddygymraeg.cymru)<br><br>Gofal Cymdeithasol Cymru – Deddf Galluedd Meddyliol 2005:<br>Deddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau... \| Gofal Cymdeithasol Cymru | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos |
| | Dysgwyr i dreulio amser yn ymchwilio i'r ffordd y caiff pob darparwr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ei arolygu a'i reoleiddio er mwyn sicrhau y caiff safonau a chanllawiau proffesiynol eu dilyn, drwy:<br>• Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)<br>• Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) | AGC:<br>Ein hadroddiadau \| Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>AGIC:<br>Dod o hyd i adroddiadau arolygu \| Arolygiaeth Gofal Cymru (agic.org.uk) | Adnoddau ar-lein CBAC |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC).<br><br>Gallai dysgwyr ymchwilio i ddarparwyr gwasanaethau yn eu hardal leol er mwyn canfod adroddiadau arolygu diweddar i'w crynhoi. | GCC:<br>Cofrestru gweithiwr cartref gofal oedolion \| Gofal Cymdeithasol Cymru | Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos |
| | Yn dilyn o'r sesiwn flaenorol, trafodaeth a arweinir gan y dysgwyr ar fframweithiau arolygu a'r hyn a ddisgwylir gan leoliadau er mwyn dangos cyflawniadau cadarnhaol nodau a chanlyniadau llesiant, i gynnwys:<br>• Fframwaith arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru<br>• Fframwaith arolygu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.<br><br>Dysgwyr i grynhoi'r fframweithiau arolygu uchod fel ymarfer adolygu. | Fframwaith arolygu AGC:<br>Ein harolygiadau \| Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Fframwaith arolygu AGIC:<br>Arolygu gofal iechyd \| Arolygiaeth Gofal Cymru (agic.org.uk) | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos |

© WJEC CBAC Cyf

<table>
<tr><th>Maes Testun</th><th>Gweithgareddau</th><th>Adnoddau</th><th>Gwaith Cartref</th></tr>
<tr><td rowspan="2">**6.8**<br>Rôl myfyrio mewn lleoliadau gofal</td><td>Sesiwn dan arweiniad y tiwtor ar rôl myfyrio rheolaidd/ymarfer myfyriol mewn lleoliadau gofal a bod myfyrio ar brosesau, polisïau a gweithdrefnau yn gwella ymarfer drwy sicrhau'r canlynol:<br>• bod pob angen unigol yn cael ei bersonoli a'i ddiwallu<br>• y gall gweithwyr gofal adeiladu ar eu hymarfer a gwella arno a chyfrannu at eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol parhaus<br>• bod polisïau, gweithdrefnau a dogfennau yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen.<br><br>Dysgwyr i ymchwilio a llunio adnoddau adolygu ar ofynion myfyrio gwahanol broffesiynau iechyd a/neu ofal cymdeithasol a manteision myfyrio rheolaidd/ymarfer myfyriol.</td><td>RCN – Myfyrio: https://rcni.com/hosted-content/rcn/first-steps/reflection<br><br>HCPC – Dod yn ymarferwr myfyriol: https://www.hcpc-uk.org/globalassets/news-and-events/benefits-of-becoming-a-reflective-practitioner----joint-statement-2019.pdf<br><br>Nursing Times – Realising the benefits of reflective practice:<br>Realising the benefits of reflective practice | Nursing Times</td><td>Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos</td></tr>
<tr><td>***Siaradwr gwadd:* Myfyrwyr Nyrsio Lleol** yn trafod y gwahanol ffyrdd y gall ymarfer myfyriol ddigwydd mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, y maent wedi'u gweld wrth ymarfer ar leoliadau. Gallai ffyrdd y mae ymarfer myfyriol yn digwydd gynnwys y canlynol:<br>• unigolion yn cynhyrchu dyddiadur myfyriol<br>• cyfarfodydd tîm a thrafodaethau rheolaidd<br>• arsylwadau gan uwch gydweithwyr<br>• arfarniadau, dulliau goruchwylio ac adolygiadau rheoli perfformiad<br>• ymwybyddiaeth, hunanfyfyrio a'r effaith arnynt eu hunain.</td><td>Getting started with reflective practice:<br>Getting started with Reflective Practice (cambridge-community.org.uk)</td><td>Y dysgwr i feddwl am gwestiynau a gwneud nodyn ohonynt yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd<br><br>Adnoddau ar-lein CBAC</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dysgwyr i lunio amrywiaeth o adnoddau sy'n addas i aelod newydd o staff mewn lleoliad iechyd, neu ofal cymdeithasol ar sut y cyflawnir ymarfer myfyriol yn y lleoliad. | | Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos |
| | Sesiwn dan arweiniad y tiwtor ar y modelau a'r damcaniaethau sy'n sail i ymarfer myfyriol, i gynnwys:<br>• Honey and Mumford<br>• Kolb<br>• Schon.<br><br>Dysgwyr i lunio canllawiau hawdd eu deall ar y modelau a'r damcaniaethau uchod er mwyn atgyfnerthu gwybodaeth a gafwyd drwy'r canllawiau adolygu blaenorol ar ymarfer myfyriol. | Holiadur Dulliau Dysgu Honey & Mumford: https://study.cardiffmet.ac.uk/AcSkills/Documents/Studying/Independent%20learning/honeyandmumford_learning_styles_questionnaire[1].pdf<br><br>Kolb:<br>Kolb's Learning Styles and Experiential Learning Cycle (simplypsychology.org) | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Y dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos |
| | ***Oriau profiad gwaith*** | | |
| | Paratowch y dysgwyr ar gyfer yr asesiad dan reolaeth – defnyddiwch yr asesiad di-arholiad enghreifftiol ar gyfer uned 6 sydd ar gael ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru | | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Nodiadau adolygu'r dysgwyr eu hunain. |
| | ***Asesiad dan reolaeth*** | | |

© WJEC CBAC Cyf